

---

 Rheoli prosiectau M815
 

---

*Patrwm cyflwyno O fis Mai i fis Hydref*

*Disgrifiad o'r modiwl*

P'un a ydynt eisoes yn rheolwyr prosiect, yn ddarpar reolwyr prosiect neu'n aelodau o dîm prosiect, bydd y modiwl hwn yn helpu myfyrwyr i wella eu hymarfer a gwneud eu cyfraniad at y prosiect yn fwy effeithiol byth. Byddant yn meithrin dealltwriaeth o'r camau hanfodol yng nghylch oes y prosiect ac yn myfyrio ar y technegau sydd ar gael iddynt a sut y gellir eu cymhwyso. Byddant yn cael y cyfle i adolygu, yn sgil eu gwybodaeth a'u profiad newydd, brosiect y maent wedi gweithio arno eisoes.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd mewn maes sy'n berthnasol i reoli prosiectau neu'n berthnasol i'r cyd-destun lle rydych yn gweithio ar brosiectau neu gymwysterau proffesiynol cyfatebol
- profiad o reoli prosiectau mewn amrywiaeth o fathau o brosiectau ac mewn mwy nag un amgylchedd
- profiad o gylch oes cyfan prosiectau a rheoli prosiectau o fewn sefydliad cartref
- y gallu i ymgysylltu â myfyrwyr y mae eu diddordebau mewn rheoli prosiectau'n ymwneud ag amgylcheddau gwahanol i'ch profiad eich hun o bosibl
- gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol ym maes rheoli prosiectau
- y gallu i weithio ag adnoddau addysgu ar-lein a thiworialau ar-lein cydamseredig, ac i helpu myfyrwyr yn yr amgylchedd dysgu hwn.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gradd uwch sy'n berthnasol i reoli prosiectau
- aelodaeth o APM neu unrhyw ardystiadau neu gymwysterau proffesiynol eraill sy'n berthnasol i reoli prosiectau.

*Gwybodaeth ychwanegol*

Mae'r modiwl hwn wedi'i ddatblygu gyda'r bwriad o apelio at fyfyrwyr sy'n astudio amrywiaeth o gymwysterau MSc o fewn y Gyfadran Mathemateg, Cyfrifiadura a Thechnoleg. Rydym hefyd yn gobeithio y caiff ei gynnwys fel opsiwn o fewn cymwysterau ôl-raddedig eraill yn y Brifysgol.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	6